Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

3 Ebrill – 12 Mehefin 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**


# Yr Amgylchedd

## Adroddiad Monitro Brexit

3 Ebrill – 12 Mehefin 2019


**Awduron:**
Elfyn Henderson, Francesca Howorth, Katy Orford, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Holly Tipper a Siân Davies



Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Holly Tipper gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.



**Trosolwg o'r papur:**
Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae Ymchwil y Senedd wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n darparu diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.


Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Camau gweithredu'r UE ..... 2**

**3. Camau gweithredu gan Lywodraeth y DU ..... 3**

**4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru ..... 4**

**5. Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban ..... 7**

**6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ..... 8**

**7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol ..... 10**

**8. Camau gweithredu eraill yn neddfwrfeydd y DU ..... 11**

**9. Ffynonellau allweddol eraill ..... 13**

**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan Ymchwil y Senedd ar gyfer y **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad** ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 3 Ebrill tan 12 Mehefin 2019. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu'r cyfnod o 31 Ionawr tan 2 Ebrill 2019.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE a datblygiadau o fewn y DU sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- Sefydliadau'r UE;
- Llywodraethau a deddfwrfeydd y DU; ac
- Yn darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gweler dogfennau cyffredinol Ymchwil y Senedd, sef **Adroddiadau Monitro a Diweddariadau ynglŷn â Gadael yr UE**, sydd wedi'u paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad. Gellir dod o hyd i wybodaeth hefyd ar dudalennau gwe'r **Cynulliad a Brexit**.

# 2. Camau gweithredu'r UE

Ar 12 Mehefin cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **gyfathrebiad i roi diweddariad ynglŷn â'i baratoadau a chynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit**. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o faterion gan gynnwys trefniadau tollau a gweithgareddau pysgodfeydd.





# 3. Camau gweithredu gan Lywodraeth y DU

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 21 Mai, cyflwynodd y Prif Weinidog Theresa May, **'gytundeb Brexit newydd'** y gobeithiai y byddai'n sicrhau mwyafrif yn Senedd y DU. Amlinellodd y Prif Weinidog gynnig deg pwynt i ASau gael eu cynnwys yn y Bil Cytundeb Ymadael. O ran yr amgylchedd a materion gwledig, roedd yn cynnwys:

- Ni fydd lefel y warchodaeth amgylcheddol yn newid pan fyddwn yn gadael yr UE;
- Bydd y DU yn ceisio sicrhau masnach nwyddau mor llyfn â phosibl gyda'r UE tra bydd y tu allan i'r farchnad sengl ac yn dod â symudiad rhydd i ben;
- Bydd y DU yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am reolau'r UE ar gyfer nwyddau a chynhyrchion bwyd-amaeth sy'n berthnasol o ran gwiriadau ar y ffin gan ddiogelu'r miloedd o swyddi sy'n dibynnu ar gadwyni cyflenwi prydlon; a
- Bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cyfaddawd tollau er mwyn i ASau benderfynu arno er mwyn dod i gytundeb.

## Ynni a Newid Hinsawdd

Ar 2 Mai lansiodd Llywodraeth y DU **ymgynghoriad ar ddyfodol prisio carbon y DU**. Mae'r ymgynghoriad yn nodi dull Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig o ymdrin â phrisio carbon yn y DU ar ôl Brexit, ac mae'n ceisio barn rhanddeiliaid ar gynllun y dyfodol.

# 4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 9 Ebrill lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaethau amaethyddol**. Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg ar yr un pryd ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU ac yn adeiladu ar argymhellion y **Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaeth**, a roddodd gyngor ar flaenoriaethau'r sector tenantiaid yn sgil Brexit. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 2 Gorffennaf ac mae **Datganiad i'r wasg** yn cydfynd ag ef.

Ar 20 Mai lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â labelu bwyd**. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 28 Mehefin.  Nod y newidiadau yw helpu busnesau i addasu i newidiadau posibl i ofynion labelu ar ôl Brexit ac maen nhw'n cynnwys:

- Cynhyrchion gydag enwau a tharddiad daearyddol gwarchodedig;
- Cynhyrchion gwin; a
- Chynnyrch ffrwythau a llysiau cymysg sy'n deillio o fwy nag un wlad.

Ar 5 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **Ddatganiad Ysgrifenedig**, a gwnaeth **Ddatganiad Llafar**, mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen rheoli tir yn y dyfodol yn dilyn Brexit.

Roedd **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Brexit a'n Tir, Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymatebion a phecyn tystiolaeth** yn cydfynd â'r datganiadau hyn, sy'n 'asesu mewn ffordd wrthrychol sefyllfa'r sector amaethyddol yng Nghymru ar hyn o bryd'.

Yn ei Datganiad Llafar, dywedodd y Gweinidog, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bod Llywodraeth Cymru bellach yn bwriadu dwyn ynghyd y cynlluniau cydnerthedd economaidd a nwyddau cyhoeddus a gynigir yn **Brexit a'n Tir** i greu un cynllun ffermio cynaliadwy. Byddai'r cynllun yn darparu taliadau blynyddol i ffermwyr yn gyfnewid am ganlyniadau nwyddau cyhoeddus ar eu ffermydd, gyda thaliadau'n cael eu targedu at ganlyniadau penodol.





Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad manwl dros 16 wythnos ar y cynigion diweddaraf ar ddechrau mis Gorffennaf, cyn Sioe Frenhinol Cymru. Bydd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn debygol o gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2020. Ar y cyd â'r ymgynghoriad, mae hefyd yn bwriadu lansio proses i gyd-ddylunio agweddau ymarferol y cynigion, gyda ffermwyr a rhanddeiliaid eraill.

Yn olaf, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU wedi sicrhau cyllid amaethyddol ar y lefelau presennol tan 2022 ac wedi ailadrodd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i fynnu bod Cymru'n cael ei chyfran bresennol y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Unwaith y bydd y gyllideb yn hysbys, meddai, gellir cynnal asesiad effaith llawn o'r cynigion ar wahanol fathau o ffermydd.

## Pysgodfeydd

Ar 1 Mai lansiodd Lesley Griffiths **ymgynghoriad ar bolisi morol a physgodfeydd Llywodraeth Cymru ar ôl Brexit**.

Yr ymgynghoriad, sef **Brexit a'n Moroedd,** yw'r 'cam cyntaf o greu polisi newydd, trefn reoli a deddfwriaeth' i Gymru ac mae'n ceisio barn ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys rheoli pysgodfeydd cynaliadwy, masnach, arloesi a chymorth ariannol. Mae'n cau ar 21 Awst.

## Fframweithiau cyffredin y DU

Ar 20 Mai cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, **Ddatganiad Ysgrifenedig: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin.** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd i Senedd y DU o bryd i'w gilydd ar faterion sy'n ymwneud â fframweithiau cyffredin a defnyddio unrhyw bwerau (os o gwbl) o dan adran 12 o'r Ddeddf (y 'pwerau rhewi' fel y'i gelwir) i gadw cyfyngiadau cyfreithiol presennol yr UE ar gymwhystra datganoledig. Cyflwynwyd y **trydydd adroddiad o'r fath** i Senedd y DU ar 16 Mai.

Mae'r adroddiad yn amlygu bod 199 o Offerynnau Statudol (OS) sy'n ymwneud â materion datganoledig wedi cael eu gosod yn Senedd y DU cyn 29 Mawrth 2019. Mae Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliad nad oes angen cyflwyno unrhyw reoliadau adran 12 ar hyn o bryd. Mae'n nodi bod Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi ailddatgan eu hymrwymiad i beidio â chreu polisi gwahanol mewn ffyrdd a allai dorri ar draws fframweithiau'r dyfodol. Mae hyn mewn meysydd polisi lle cytunwyd bod fframweithiau'n angenrheidiol, neu mewn meysydd lle mae trafodaeth bellach yn mynd rhagddi.

Mae'r adroddiad yn nodi bod swyddogion yn parhau i drafod yn y 24 maes polisi y nodwyd bod angen fframweithiau cyffredin arnynt ac sy'n datblygu 'cytundebau amlinellol'. Mae llawer o'r rhain mewn meysydd polisi amgylcheddol.

Ar 24 Mai, darparodd Jeremy Miles **ymateb** (eitem 6.5) i lythyr Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol dyddiedig 7 Mai. Roedd y llythyr yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â barn Llywodraeth Cymru ar ddadansoddiad fframwaith diwygiedig Llywodraeth y DU. Roedd y llythyr yn cydnabod, er bod cynnydd cryf wedi'i wneud ar fframweithiau cyffredin a materion llywodraethu yn gyffredinol, bod rhai materion sylfaenol yn dal i fod angen eu datrys cyn y gall fframweithiau unigol fod yn destun ymgynghoriad a thrafodaeth ehangach ac yna eu cwblhau. Dywedodd hefyd y bydd telerau ymadawiad y DU â'r UE yn ffactor hanfodol.

## Offerynnau Statudol

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod Offerynnau Statudol a wnaed o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* i'w sifftio gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad. Mae gwefan y Pwyllgor **yn rhestru'r offerynnau statudol a osodwyd hyd yn hyn**; mae llawer ohonynt yn y maes polisi amgylcheddol.





# 5. Camau gweithredu gan Lywodraeth yr Alban

Ar 15 Ebrill, **Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban erthygl newyddion** yn ailadrodd ei barn ar bwysigrwydd dinasyddion yr UE i lwyddiant a chynaliadwyedd cymunedau arfordirol a gwledig.

Ar 29 Ebrill cyfarfu Grŵp Rhyng-Weinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yng Nghaerdydd. **Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y cofnodion ar 27 Mai,** sy'n nodi bod y grŵp wedi trafod cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit heb gytundeb, cynnydd biliau amaethyddiaeth, pysgodfeydd ac amgylchedd y DU, a chyllid.

## Offerynnau Statudol

Ar 9 Ebrill cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban **fynegai o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit.** Mae'r mynegai yn cynnwys rhestr o hysbysiadau i Senedd yr Alban ynghylch Offerynnau Statudol y DU a'r Alban a fydd yn cael eu diwygio pe bai senario Brexit heb gytundeb. Mae llawer o'r Offerynnau Statudol hyn yn ymwneud â'r maes polisi amgylcheddol.

# 6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 14 Mai, **Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at Lesley Griffiths** i geisio sicrwydd pellach mewn perthynas â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ran 7 Bil Amaeth y DU (Cytundeb Amaeth â'r WTO). **Ymatebodd y Gweinidog ar 21 Mai** yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.

Ar 11 Mehefin cyhoeddodd y Pwyllgor ei **Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth** (PDF 1MB). Mae'r adroddiad hwn yn nodi casgliadau'r Pwyllgor ar y prif newidiadau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio caniatâd ar eu cyfer.

Dyma ail adroddiad y Pwyllgor ar y Bil. Cyhoeddwyd yr **adroddiad cyntaf ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil** (PDF 1.26MB) ym mis Ionawr. Yn y ddau adroddiad, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cynulliad yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau yn y Bil, yn amodol ar nifer o ffactorau.

## Llywodraethu amgylcheddol

Ar 8 Mai, yr **Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor** at Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn am farn ar drefniadau ac egwyddorion llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit. Roedd hyn i gefnogi ymchwiliad arfaethedig y Pwyllgor i egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu ar ôl Brexit. Mae eu hymatebion i'w gweld ar y **Wefan y Pwyllgor**.

Ar 12 Mehefin cynhaliodd y Pwyllgor y **sesiwn dystiolaeth gyntaf yr ymchwiliad hwn**. Bu'r sesiwn yn archwilio cynigion Llywodraeth Cymru i lenwi'r bwlch llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan academyddion a ddarparodd awgrymiadau yn ymwneud â'r set arfaethedig o egwyddorion amgylcheddol a'u gweithrediad. Trafodwyd swyddogaethau a chwmpas y corff llywodraethu arfaethedig yn y dyfodol, gan gynnwys swyddogaethau monitro, adrodd a gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

Roedd yr academyddion hefyd yn ystyried mynediad dinasyddion at weithdrefnau cwyno o ystyried bod mynediad i weithdrefnau'r Comisiwn Ewropeaidd ar ôl Brexit yn cael ei golli. Trafodwyd manteision dull cydgysylltiedig o'r DU, yn ogystal ag ymarferoldeb sefydlu corff o'r fath cyn diwrnod ymadael.

Bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth bellach ar y materion hyn mewn cyfarfodydd dilynol (20 a 26 Mehefin).

# 7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 14 Mai, gofynnwyd i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford **a fydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn cyfleusterau storio oer newydd** ar gyfer cig oen mewn ymateb i bwysau sy'n deillio o Brexit.

Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud nad oedd wedi bod yn angenrheidiol i wneud hynny hyd yma. Yn ddiweddarach yn ystod y drafodaeth dywedodd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynllun gweithredu newydd ar gyfer bwyd yn yr haf a fydd yn 'mynd i'r afael â chymhlethdodau cynhyrchion a defnydd bwyd, gan ganolbwyntio ar gyflwyno dewisiadau bwyd diogel ac iach, lles anifeiliaid ac adfer yr amgylchedd'.

## Gwastraff

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 8 Mai, gofynnwyd i Jeremy Miles **pa drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch dyfodol y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff yn dilyn Brexit**. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal safonau amgylcheddol ar ôl Brexit a bod trafodaethau yn mynd rhagddynt yn y maes hwn rhwng gweinyddiaethau'r DU. Eglurodd hefyd fod 'deddfwriaeth gywirol wedi'i rhoi ar waith' fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Brexit mewn senario heb gytundeb.





# 8. Camau gweithredu eraill yn neddfwrfeydd y DU

Ar 3 Ebrill clywodd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd Tŷ'r Arglwyddi **dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove,** ynglŷn â pharatoadau ei adran ar gyfer Brexit heb gytundeb. Derbyniwyd **llythyr oddi wrth Michael Gove at y Pwyllgor** yn dilyn hynny ar 9 Ebrill.

Ar 15 Mai rhoddodd Michael Gove dystiolaeth drwy gyswllt fideo i ddau bwyllgor Senedd yr Alban. Roedd y sesiwn gyda **Phwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir** a'r **Pwyllgor Economi Wledig a Chysylltedd** yn archwilio polisïau amgylcheddol, amaethyddol a physgodfeydd y DU.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 1 Mai, bu Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin yn **craffu ar Theresa May**. Gofynnwyd i'r Prif Weinidog pa mor barod yw Cymru ar gyfer Brexit heb gytundeb. Dywedodd fod y gweinyddiaethau datganoledig yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ac roedd hi'n hyderus bod Llywodraeth Cymru yn barod.

Gofynnwyd hefyd i'r Prif Weinidog yn benodol a oedd hi'n hyderus na fyddai ffermwyr defaid o Gymru yn dioddef yn ariannol pe byddai Brexit yn digwydd heb gytundeb. Ymatebodd i ddweud

> One of the aspects that we have been considering as a Government is looking at those areas which could be particularly affected in a no-deal situation and the extent to which it would be appropriate for Government to act in those circumstances. That is a debate that continues.

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Yn dilyn craffu ar y cyd cyn deddfu ar Fil Drafft Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) Llywodraeth y DU, cyhoeddodd Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin (EFRA) a'r Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol (EAC) eu hadroddiadau ym mis Ebrill.

Ar 25 Ebrill, cyhoeddodd yr EAC **ei adroddiad** a ganfu fod y Bil yn ddiffygiol yn y meysydd canlynol:

- Egwyddorion amgylcheddol;

- pwerau annibyniaeth a gorfodaeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; a
- Chynlluniau gwella'r amgylchedd.

Ar 30 Ebrill, cyhoeddodd Pwyllgor EFRA **ei adroddiad** sy'n argymell, ymhlith pethau eraill, bod y Bil yn cael ei ddiwygio i:

- Sicrhau na fydd egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu yn colli eu statws a'u blaenoriaeth gyfreithiol gyfredol;
- Atgyfnerthu annibyniaeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd oddi wrth y Llywodraeth; a
- Darparu'r pwerau angenrheidiol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i sicrhau nad oes bwlch mewn llywodraethiant ar ôl i ni adael yr UE.

Ar 15 Mai, bu Pwyllgor UE Tŷ'r Arglwyddi yn **craffu ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, Stephen Barclay**, ar destun trafodaethau Brexit, gan gynnwys llywodraethu amgylcheddol.

Ar 15 Mai, bu Tŷ'r Arglwyddi yn **trafod 'Brexit: Bioddiogelwch Planhigion ac Anifeiliaid'.**

## Ynni a newid hinsawdd

Ar 15 Mai derbyniodd Pwyllgor Tŷ›r Cyffredin ar Ymadael â'r UE dystiolaeth gan randdeiliaid ynglŷn â **chynnydd trafodaethau'r DU ar ymadael â'r UE**. Clywodd y Pwyllgor fod Defra wedi cynhyrchu'r nifer fwyaf o Offerynnau Statudol Brexit sy'n perthyn i unrhyw un o adrannau Llywodraeth y DU, gan arwain at effaith anghymesur ar gyfraith amgylcheddol.

## Offerynnau Statudol

Mae Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin yn sifftio rhai Offerynnau Statudol arfaethedig a gynigir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gellir gweld yr Offerynnau Statudol arfaethedig perthnasol ar **wefan y Pwyllgor.**

Mae'r rôl hon cael ei chyflawni yn Nhŷ'r Arglwyddi gan y **Pwyllgor Craffu Deddfwriaeth Eilaidd.**





# 9. Ffynonellau allweddol eraill

## Ansawdd aer

Briff Ymchwil Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Brexit and air quality**, Mai 2019

## Amaethyddiaeth a bwyd

Pecyn Briffio Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, **Adroddiad Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd: Brexit: Plant and Animal Biosecurity,** Mai 2019

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Early review of the new farming programme (Lloegr)**, Mehefin 2019

NFU Cymru, **Brexit Update**, Mehefin 2018

NFU Cymru, **Farming unions map out an agenda for the future,** Mai 2019

Llywodraeth yr Alban, **Inter-Ministerial Group for Environment, Food and Rural Affairs: April 2019**, Mai 2019

Llywodraeth yr Alban, **Inter-Ministerial Group for Environment, Food and Rural Affairs: March 2019**, Ebrill 2019

Cymdeithas y Pridd, **Setting the bar for a Green Brexit in Food and Farming,** Mehefin 2019

Sesiwn Briffio SPICe, **Brexit and veterinary workforce pressures - A perfect storm?**, Mai 2019

Blog SPICe Spotlight, **Brexit and veterinary workforce pressures – a perfect storm?**, Ebrill 2019

The UK in a Changing Europe, **The prospects for post-Brexit trade with New Zealand**, Mai 2019

Arsyllfa Polisi Masnach y DU, **Not just a technical exercise: a look at new UK pesticides regulation**, Mai 2019

## Ynni a Newid Hinsawdd:

Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, **Net Zero – The UK's contribution to stopping global warming**, Mai 2019

Sesiwn Briffio SPICe, **EU Emissions Trading System** (PDF 2.32MB), Ebrill 2019

Blog SPICe Spotlight, **The EU Emissions Trading Scheme and Brexit**, Ebrill 2019

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Alison Hough BL, **Brexit, the Good Friday/Belfast Agreement and the Environment: Issues arising and possible solutions** (PDF 1.21MB), Mai 2019

Adolygiad Cyfraith Amgylcheddol, **Out of the frying pan, into the fire? Environmental governance vulnerabilities in post-Brexit Northern Ireland**, Mehefin 2019

Rhwydwaith Academaidd Brexit a'r Amgylchedd, Ebrill-Mai 2019:

- **The Article 50 extension: Implications for environmental governance**
- **Extending the Environment Bill to Northern Ireland: What changes are needed?**
- **The Good Friday/Belfast Agreement and environmental governance: Risks and opportunities after Brexit**
- **Imagining the future of UK environmental law**

Blog Cynghrair Gwyrdd, **Businesses need a better Environment Bill,** Mai 2019

Greener UK, **Briefing for MPs for Opposition Day debate: Environment Bill**, Mai 2019 PDF

Sefydliad Polisi Ewropeaidd ac Amgylcheddol, **Closing the gap: implementing European environmental policy,** Mai 2019

## Pysgodfeydd

Blog Cynghrair Gwyrdd, **Brexit legislation unravelling protections for UK marine life and fisheries,** Mai 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **The Fisheries Bill 2017-19,** Ebrill 2019

Pysgodfeydd Effaith Isel Ewrop, **Fishy Business: Fish POs in the EU**, Mai 2019





Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Pysgotwyr, **Fixed Quota Allocations and Sustainable Fishing,** Mehefin 2019

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Pysgotwyr, **Parliamentary Support for the Fishing Industry,** Ebrill 2019

Seafish, **Canllaw Diwydiant Bwyd Môr y DU: Preparing your business for EU Exit,** Ebrill 2019

Seafish, **Brexit Blog,** Mai 2019

Blog SPICe Spotlight, **The fight for the future of fish**, Mai 2019

Llywodraeth Cymru, **Bwletin Pysgodfeydd a Brexit,** parhaus

## Arall

Rhwydwaith Academaidd Brexit a'r Amgylchedd, **EU-UK environmental cooperation: Is the backstop the Goldilocks option?**, Mai 2019

Blog Cynghrair Gwyrdd, **Beyond the no deal panic, we need full scrutiny of Brexit legislation,** Mai 2019

Blog Cynghrair Gwyrdd, **How the UK measures up in environmental league tables,** Mai 2019

Blog Cynghrair Gwyrdd, **n a Brexit compromise, MPs must consider what's best for the environment,** Mai 2019

Sefydliad Polisi Ewropeaidd ac Amgylcheddol, **Brexit and its implications for EU environmental policy: araith gan Nigel Haigh**, Ebrill 2019

Diweddariad Blog Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon, **What next for the environment, Brexit and cross-border co-operation?,** Mai 2019

Gwasanaeth Llyfrgell ac Ymchwil Oireachtas a Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon, **A comparison of the planning systems in Ireland and Northern Ireland** (PDF 7.34MB), Ebrill 2019

Viviane Gravey, Andrew J Jordan, **Policy dismantling at EU level: Reaching the limits of 'an ever-closer ecological union'?,** Mai 2019

